AMGUEDDFA CYMRU

# Strategaeth Ymchwil
# 2022 - 2027

## 1. Cyflwyniad

Datblygwyd y Strategaeth Ymchwil i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein strategaeth gorfforaethol, Amgueddfa Cymru 2030. Mae ymchwil yn Amgueddfa Cymru yn cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd Cymru. Yn ystod y pandemig, bu newid dramatig yn y ffyrdd y gwnaethom ymgysylltu â'n hymwelwyr a'u cefnogi gan godi cwestiynau newydd am ein rôl yn nhirwedd ddiwylliannol Cymru. Mae ein hymchwilwyr yn gweithio ar bynciau sy'n amrywio o'r argyfwng bioamrywiaeth i rwydweithiau bwyd mewn cymdeithasau canoloesol cynnar a hanes cymunedau LHDTC+ yng Nghymru.

Rydym yn ymroi i gyflawni ymchwil o'r radd flaenaf yn y gwyddorau naturiol, y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau sydd o fudd i gymunedau yng Nghymru. Gwelir ymchwil fel cyfrwng allweddol wrth gyflwyno Amgueddfa Cymru 2030. Bydd yn gyfle inni ddeall ein gwasanaethau'n well, gwella profiad ymwelwyr a chefnogi ein taith tuag at weithredu carbon sero-net. Fel yr unig Sefydliad Ymchwil Annibynnol yn y sector diwylliannol yng Nghymru, byddwn yn defnyddio elfennau unigryw ein hamgueddfeydd a'n casgliadau i gyflawni gwaith ymchwil nad oes modd i eraill ei wneud.

Mae Amgueddfa Cymru 2030 yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael y cyfle i lywio a chymryd rhan ym mywyd diwylliannol ein cenedl. Rydym yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb i adlewyrchu profiadau pob cymuned, a'n bwriad yw gwrando ar y rhai nad ydynt eto'n gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn ein gwaith. Gall ymchwil chwarae rhan bwysig wrth ddod â hanesion heb eu hadrodd i olau dydd. Hefyd gall ein helpu i ddeall sut mae amgueddfeydd o bosibl yn parhau i feithrin anghydraddoldeb a sut y gallwn wneud yn well.

Trwy waith ymchwil byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r chwe ymrwymiad i Gymru sydd yn ein strategaeth. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau i sicrhau ein bod yn **cynrychioli pawb.** Bydd ymchwil gyfranogol sy'n defnyddio'n casgliadau amrywiol yn **ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes.** Bydd ein hymchwilwyr yn y gwyddorau naturiol yn cyfrannu at waith pwysig rhyngwladol i **helpu i ddiogelu ac adfer natur a'r amgylchedd.** Byddwn ni hefyd yn defnyddio ein safleoedd fel meithrinfa i ymchwilio i gynaliadwyedd yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Bydd gwaith ymchwil newydd gyda chymunedau ledled Cymru yn taflu goleuni pellach ar sut y gallwn **gefnogi lles drwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli**, gan ganolbwyntio ar hygyrchedd. Byddwn yn parhau i gynnal gwaith ymchwil i ddatblygu ffyrdd newydd a chyffrous i ymwelwyr **ddarganfod yr amgueddfa yn ddigidol.** Yn olaf, byddwn yn **creu cysylltiadau byd-eang** i sicrhau bod cymunedau yng Nghymru ac yn rhyngwladol yn elwa o'r gwaith yr ydym yn ei wneud.

## 2. Blaenoriaethau ymchwil

Drwy ein hymchwil rydym yn ceisio ennyn diddordeb cymunedau amrywiol a helpu i lunio dyfodol i Gymru lle mae pawb yn cael teimlad o gysylltiad ac o berthyn. Gan ein bod yn hyrwyddo democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol, byddwn ni'n defnyddio ymchwil i archwilio agweddau ar hunaniaeth Cymru a chryfhau ein

perthynas â chenhedloedd eraill. Byddwn yn ymchwilio i'r bylchau yn ein casgliadau ac yn archwilio'r ffyrdd gorau o'u llenwi. Bydd hyn yn gyfle i ni yng Nghymru herio'r math traddodiadol o amgueddfa, ac arwain y gwaith o wneud amgueddfeydd yn ystyriol o gymdeithas.

Dros y pum mlynedd nesaf bydd ein hymchwil yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

**Dad-drefedigaethu –** gweithredu ein siarter ar gyfer dad-drefedigaethu, a sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael eu cynrychioli – dyma fydd un o brif elfennau ein gwaith yn y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal â datgelu dehongliadau newydd o'n gwrthrychau, bydd ymchwil dad-drefedigaethu hefyd yn archwilio'r bylchau yn ein casgliadau lle mae cymunedau heb eu cynrychioli'n ddigonol yn yr hanesion sy'n cael eu nodi am hunaniaeth Gymreig a'r gwrthrychau rydym yn eu harddangos. Bydd yn mynd ymhellach i ddatgelu a helpu i ddatgymalu'r rhwystrau o fewn ein sefydliad a'r sector treftadaeth yn ehangach sy'n parhau i roi rhai grwpiau a chymunedau dan anfantais.

**Cynhwysiant** – mae gwella cynhwysiant a hygyrchedd ein gwasanaethau yn golygu llawer o wahanol bethau i wahanol bobl. Nid ydym am gyfyngu ar fynediad i'r rhai sy'n gallu teithio i'n lleoliadau. Drwy ein hymchwil byddwn yn ceisio gwella mynediad at ein casgliadau gyda ffyrdd newydd o ryngweithio'n ddigidol a ffyrdd newydd o rannu gwrthrychau gydag amgueddfeydd lleol a sefydliadau cymunedol. Byddwn ni hefyd yn cynnal ymchwil i wella hygyrchedd ein lleoliadau yn ogystal â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r gwrthrychau sydd ynddynt. BSL yw ein trydedd iaith swyddogol, a byddwn yn parhau i weithio i wella profiadau i ymwelwyr â nam ar eu golwg. Byddwn yn chwilio am y ffyrdd mwyaf cynhwysol posibl newydd o gyflawni ein gwaith.

**Diogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd** – rydym yn cydnabod bod angen i sefydliadau cenedlaethol fod yn flaengar ar faterion cynaliadwyedd amgylcheddol. Byddwn yn defnyddio ein hamgueddfeydd er mwyn deall sut mae bioamrywiaeth yn newid a sut i gefnogi ecosystemau gwydn iach. Bydd ein fferm yn Sain Ffagan yn cael ei defnyddio ar gyfer ymchwil amaethyddol ar ddyfodol ffermio a bwyta'n gynaliadwy. Mae ein casgliadau'n cynnwys gwybodaeth waelodlin unigryw am fioamrywiaeth ledled Cymru a ledled y byd, sy'n cefnogi monitro ymchwil a diogelu ein hamgylchedd naturiol. Byddwn yn cynnal astudiaethau tacsonomig sy'n sail i'n dealltwriaeth o fioamrywiaeth, felly mae ein hymchwil yn cyrraedd pellafoedd byd. Hefyd, byddwn yn ymroi i wneud ein gwaith gofal a chadwraeth ar adeiladau'r amgueddfa a'r ystâd yn gynaliadwy, ac yn gweithio gyda phartneriaid i archwilio arloesedd yn y maes hwn.

**Cynefin** – gall ein casgliadau roi dealltwriaeth i bobl a chymunedau Cymru o dreftadaeth hanesyddol, fiolegol a daearegol eu hardal leol, gan roi ymdeimlad iddynt o le ac o berchnogaeth. Bydd gwaith ymchwil yn archwilio amgylcheddau'r gorffennol a sut mae daeareg ardal yn cael ei chynrychioli yn y dreftadaeth adeiledig, y defnydd o fwynau a chysylltiadau â diwydiant. Bydd hyn yn cefnogi a chysylltu â'n dehongliad a'n dealltwriaeth o'n hamgueddfeydd ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnwys ar gyfer rhaglenni cyhoeddus hefyd, gyda Cynefin yn ffurfio ffocws pwysig ar gyfer Hanes yn y cwricwlwm newydd i Gymru.

## 3. Nodau ac Effeithiau

| Cynrychioli pawb | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Enghreifftiau o weithgarwch** | **Effaith** |
| Cydweithio â chymunedau ledled Cymru drwy bob cam o'r broses ymchwil. | • Y cymunedau perthnasol i osod agenda ein hymchwil i ddad-drefedigaethu'r casgliadau.<br>• Defnyddio dulliau ymchwil cyfranogol lle bynnag y bo modd, gan roi'r un gwerth ar brofiad byw ag a roddir ar arbenigedd academaidd traddodiadol.<br>• Blaenoriaethu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio er mwyn helpu i gynyddu'r amrywiaeth o brofiadau byw y gallwn eu gwasanaethu drwy ein rhaglen ymchwil. | • Cymunedau lleiafrifol yn cael eu cynrychioli'n well.<br>• Mae projectau ymchwil yn diwallu anghenion ein cymunedau.<br>• Datblygu sgiliau ar gyfer ymchwilwyr yn y gymuned. |
| Datgelu'r hanesion cudd am ein sefydliad a'n casgliadau. | • Ymchwilio i hanes eitemau yn ein casgliadau i ddatgelu'r holl ffeithiau am eu tarddiad a sut y gwnaethom eu caffael.<br>• Creu gofod trwy gynnal ymchwil cyfranogol ar gyfer lleisiau newydd i gyfrannu at ail-adrodd hanes ein casgliadau.<br>• Cynnal ymchwil i hanes sefydliadol Amgueddfa Cymru a gwaddol hyn yn ei harfer cyfoes, er enghraifft yng nghyd-destun dad-drefedigaethu'r sefydliad. | • Mae dehongliadau newydd o'n casgliadau'n adlewyrchu ystod ehangach o brofiadau.<br>• Gall cymunedau lleiafrifol weld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu'n fwy cywir yn yr hanes rydym ni'n ei adrodd.<br>• Mae ein hamgueddfeydd yn fwy croesawgar a deniadol.<br>• Mae Amgueddfa Cymru'n sefydliad mwy tryloyw, sy'n fwy agored i newid. |

| Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Gweithgaredd** | **Effaith** |
| Archwilio meysydd ymchwil posibl ar gyfer rhaglenni a dysgu hunangyfeiriedig. | • Mapio ymchwil sy'n bodoli eisoes ar effeithiau ymgysylltu hunangyfeiriedig hygyrch ym meysydd dysgu gydol oes a chreadigrwydd.<br>• Cwblhau adolygiad llenyddiaeth o arferion gorau cyfredol ar gyfer dysgu mewn amgueddfeydd o ran rhaglenni a dysgu hunangyfeiriedig. | • Mwy o ddealltwriaeth o'r ffordd orau y gallwn ni gefnogi dysgu.<br>• Dulliau newydd o ddatblygu cynnwys ar gyfer rhaglenni cyhoeddus yn seiliedig ar yr ymchwil ddiweddaraf.<br>• Gwell profiad dysgu i'n hymwelwyr. |
| Cyflawni projectau ymchwil sy'n ymroi i gefnogi datblygiad a chynnwys rhaglenni cyhoeddus. | • Mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd ymchwil yn seiliedig ar gynllunio hirdymor ar gyfer arddangosfeydd, digwyddiadau cyhoeddus a rhaglenni addysg.<br>• Gweithio gyda'r tîm arddangosfeydd i ddatblygu sianel o ofynion ymchwil. | • Cynnwys arloesol, difyr i'n hymwelwyr.<br>• Cynnwys cyfoethocach yn ein harddangosfeydd i ategu diddordeb ymwelwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol. |
| Cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan mewn projectau ymchwil i bobl o gefndiroedd academaidd annhraddodiadol. | • Lle bynnag y bo'n bosibl, cynnwys rolau cyflogedig ar gyfer ymchwilwyr yn y gymuned yn ein projectau a ariennir.<br>• Treialu cynllun newydd yn cynnwys cyllido a mentora a mynediad llawn i'n casgliadau, archifau a llyfrgelloedd i hyrwyddo sgiliau ymchwil. | • Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer ymchwilwyr yn y gymuned.<br>•<br>• Cyfleoedd newydd i bobl o’r sector treftadaeth sy’n awyddus i symud i’r maes ymchwil. |

| | | |
|---|---|---|
| Gwneud ein cynnyrch ymchwil yn hygyrch i bawb. | • Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd ymchwil yn cael ei gyhoeddi mewn fformatau mynediad agored.<br><br>• Bydd canfyddiadau allweddol ein projectau ar gael trwy flogiau a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, beth bynnag fo'u dull cyhoeddi.<br><br>• Defnyddir Altmetric i olrhain ein llwyddiant o ran cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach gyda'n hymchwil. | • Bydd y wybodaeth a gynhyrchwn ar gael yn rhydd i bawb.<br><br>• Cyflwynir ymchwil mewn fformatau deniadol, hawdd eu deall ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>• Bydd gennym well dealltwriaeth o'r bobl sy'n ymgysylltu â'n hymchwil, gan ein galluogi i wella ein cyfathrebu ymhellach yn y dyfodol. |

| Helpu i ddiogelu ac adfer natur a'r amgylchedd | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Gweithgaredd** | **Effaith** |
| Defnyddio tirweddau amrywiol ein hamgueddfeydd i gefnogi ymchwil amgylcheddol arloesol. | • Cydweithio gyda phartneriaid mewn prifysgolion i archwilio sut y gellir defnyddio ystâd ein hamgueddfeydd (er enghraifft, y fferm a'r coetiroedd yn Sain Ffagan) i ddatblygu dulliau o ddefnyddio tir yn gynaliadwy.<br>• Bydd arolygon bioamrywiaeth yn ein holl safleoedd yn darparu data llinell sylfaen ar gyfer ymchwil yn y dyfodol i newid amgylcheddol. | • Gall ein hymwelwyr brofi dulliau mwy cynaliadwy o ffermio am y tro cyntaf.<br>• Gwell dealltwriaeth o sut mae ein hamgylchedd yn newid ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. |
| Cydweithio gyda mudiadau cenedlaethol eraill yng Nghymru ar ymchwil sydd o bwys cenedlaethol. | • Cyfrannu at brojectau monitro amgylcheddol, gan adeiladu ar ein harbenigedd sy'n arwain y byd ym maes tacsonomeg.<br>• Parhau i weithio'n rhyngwladol ar brojectau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a rhywogaethau ymledol anfrodorol. | • Gwell gwybodaeth ar gael i ymarferwyr a llunwyr polisïau amgylcheddol. |
| Cydweithio â sefydliadau ymchwil ledled y byd ar brojectau o bwys rhyngwladol, yn enwedig lle mae hyn yn creu cyfleoedd i ymchwilwyr o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol. | • Datblygu perthynas gyda phartneriaid ymchwil rhyngwladol trwy brojectau cydweithredol newydd er mwyn cyrraedd y nod hwn.<br>• Nodi cydweithwyr newydd mewn gwledydd lle gall ein casgliadau hanes natur gyfrannu at ddealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol hanesyddol. | • Gwell dealltwriaeth o newid amgylcheddol ac effeithiau dynol ar raddfa ryngwladol.<br>• Gwell data ar gyfer monitro amgylcheddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Parhau i ymchwilio i fioamrywiaeth a newid amgylcheddol gan gyfrannu at ddealltwriaeth ryngwladol, er enghraifft, drwy adroddiadau gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. | |
| Datblygu rhaglen ymchwil i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau carbon sero-net. | • Datblygu projectau ymchwil i ystyried sut y gellir ymgorffori projectau ynni gwyrdd wrth reoli ein hamgueddfeydd ac ystâd yr amgueddfa.<br><br>• Nodi projectau ymchwil sy'n archwilio ffyrdd o leihau allyriadau carbon ar draws pob rhan o'n busnes, gan gynnwys er enghraifft, adeiladau a rheoli ystadau ac arferion caffael gwyrdd. | • Lleihau ein hôl-troed carbon. |
| Cysylltu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu â'u hamgylcheddau naturiol lleol. | • Adeiladu gweithgareddau datblygu sgiliau gyda'r cyhoedd yn ein projectau ymchwil i roi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i'w helpu i fonitro bioamrywiaeth yn eu hardal leol.<br><br>• Projectau ymchwil cyfranogol sy'n archwilio'r ffordd y mae daeareg Cymru wedi llunio ein hamgylchedd adeiledig a'n traddodiadau diwylliannol.<br><br>•<br><br>• Ymchwil cyfranogol sy'n archwilio'r casgliadau hanes natur i ddatgelu hanesion newydd sy'n cysylltu pobl â byd natur. | • Mae cymunedau'n teimlo mwy o gysylltiad â'u hardal leol am eu bod yn deall eu hamgylchedd naturiol yn well.<br><br>• Gwell sgiliau mewn cymunedau i gefnogi'r gwaith o fonitro'r amgylchedd a bioamrywiaeth yn eu hardal leol. |

| Cefnogi lles drwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Gweithgaredd** | **Effaith** |
| Nodi cyfleoedd ar gyfer ymchwil a all gefnogi lles ymwelwyr a phresgripsiynu cymdeithasol. | • Cynllunio ymchwil cyfredol ar effeithiau rhaglenni a gofodau'r amgueddfeydd ar iechyd a lles.<br><br>• Nodi cydweithwyr posibl ledled Cymru sydd ag arbenigedd ym maes ymchwilio i les, gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol. | • Gwella lles i bobl sy'n ymweld â'n hamgueddfeydd. |
| Datblygu rhaglen ymchwil i wella cynhwysiant ein safleoedd, ein casgliadau a rhaglenni cyhoeddus. | • Mae'r agenda ymchwil i gynhwysiant yn cael ei phennu gan gymunedau perthnasol.<br><br>• Adeiladu ar y cryfderau cyfredol o ran cymorth dementia i ddatblygu ymchwil dan arweiniad y gymuned a all fod o fudd i'r sector treftadaeth.<br><br>• Datblygu ymchwil i werthuso'r manteision i gleifion a staff o gael arddangosfeydd a rhaglenni amgueddfeydd mewn lleoliadau gofal iechyd. | • Gwell profiad i bawb.<br><br>• Adnoddau a dulliau newydd o gefnogi lles i bobl sy'n byw â dementia drwy ymgysylltu â ni.<br><br>• Staff a chleifion mewn lleoliadau gofal iechyd yn profi lles gwell drwy ymgysylltu â'n gwaith. |
| Datblygu projectau ymchwil sy'n cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw ein hadeiladau hanesyddol yn gost-effeithiol. | • Datblygu projectau ymchwil i archwilio'r defnydd o ddulliau traddodiadol o reoli'r amodau amgylcheddol mewnol yn ein hadeiladau hanesyddol.<br><br>• Datblygu projectau ymchwil i archwilio sut y gellir defnyddio technolegau digidol i gefnogi gwaith cynnal a chadw adeiladau a pheiriannau hanesyddol yn gost-effeithiol. | • Amgylcheddau dan do mwy cyfforddus ar gyfer ein staff a'n hymwelwyr.<br><br>• Mwy o opsiynau cynnal a chadw cost-effeithiol ar gyfer ein hadeiladau.<br><br>• Gwella hyd oes a defnyddioldeb ein hadeiladau a'n peiriannau hanesyddol. |

| Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Gweithgaredd** | **Effaith** |
| Cefnogi'r gwaith er mwyn gwella profiadau digidol, gwasanaethau a chynnwys, gan gynnwys drwy brojectau ymchwil cyfranogol. | • Datblygu projectau ymchwil sy'n cael eu gyrru gan ofynion ymwelwyr er mwyn sicrhau bod profiadau digidol newydd yn diwallu eu hanghenion. | • Mae ein gwaith yn hygyrch i gynulleidfa ehangach. |
| Gwella mynediad ar-lein i bob agwedd ar ein hymchwil a'n cymuned ymchwil. | • Llunio catalog digidol newydd ar gyfer ein llyfrgell.<br>• Archwilio opsiynau ar gyfer storfeydd ar-lein hygyrch ar gyfer ein hallbynnau ymchwil.<br>• Ail-ddylunio ac ail-lansio ein tudalennau ymchwil ar ein gwefan fel bod ein gwaith ymchwil a phroffiliau ein staff ymchwil yn fwy hygyrch i ddarpar gydweithwyr. | • Mae darpar ymchwilwyr a chydweithwyr o bob cefndir yn cael mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt. |

| Creu cysylltiadau byd-eang | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Gweithgaredd** | **Effaith** |
| Datblygu partneriaethau ymchwil byd-eang sydd o fudd i Gymru, ar draws ystod o ddisgyblaethau. | • Cynnal ymchwil i'r gwyddorau naturiol gyda phartneriaid rhyngwladol.<br>• Parhau i ddatblygu ymchwil i waith a bywyd artistiaid a gydnabyddir yn rhyngwladol a gynrychiolir yn ein casgliadau. | • Rydym yn cyfrannu at ymchwil amgylcheddol o arwyddocâd rhyngwladol.<br>• Rydym yn adrodd straeon newydd a all gyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol drwy blatfformau digidol ac arddangosfeydd teithiol. |
| Ceisio cyfleoedd ariannu newydd i adeiladu rhwydweithiau ymchwil rhyngwladol sydd o fudd i bobl a chymunedau yng Nghymru. | • Gwneud cais am gyllid fel grantiau rhwydweithio AHRC sy'n cefnogi gwaith gyda chydweithwyr rhyngwladol.<br>• Gwneud cais am arian o ffynonellau megis y British Council, sydd ar gyfer cefnogi cydweithio rhyngwladol.<br>• Lle bynnag y bo'n ymarferol ac yn briodol, cynnwys y costau llawn ar gyfer cydweithwyr rhyngwladol yn ein ceisiadau grant. | • Mae ein hymchwil yn cyfrannu at ddatrys problemau o bwys rhyngwladol.<br>• Mae ein hymchwilwyr yn ennill sgiliau a phrofiad newydd drwy gydweithio â'r gorau yn rhyngwladol.<br>• Mae gan ein cydweithwyr fynediad at adnoddau newydd i gefnogi ymchwil o fudd i'r ddwy ochr. |
| Cefnogi cyfnewid gwybodaeth ryngwladol. | • Cyflwyno cyfres o seminarau ar-lein gyda siaradwyr rhyngwladol gwadd.<br>• Cyflwyno cynhadledd ymchwil flynyddol gyda chyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb a digidol i hyrwyddo ymgysylltu â siaradwyr a mynychwyr rhyngwladol.<br>• Cefnogi ceisiadau gan ymchwilwyr rhyngwladol i ymgymryd â phrojectau gyda ni. | • Mae ein hymchwilwyr yn cadw i fyny gyda'r ymchwil rhyngwladol perthnasol diweddaraf.<br>• Rydym yn dysgu o ymchwil a wnaed mewn gwahanol gyd-destunau diwylliannol a all lywio ein gwaith ar gynhwysiant a dad-drefedigaethu.<br>• Rydym ni'n rhannu'r hyn rydym ni'n ei ddysgu o'n hymchwil gyda'r gynulleidfa ehangaf bosibl. |

| Ymchwil fel Hwyluswr Strategol | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Gweithgaredd** | **Effaith** |
| Hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr yn y sector diwylliannol. | • Arwain cais am CDP4 mewn cydweithrediad â'r Ardd Fotaneg Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol.<br>• Cynyddu ymgysylltiad â phartneriaethau hyfforddi doethurol i arallgyfeirio'r ffynonellau ariannu ar gyfer dyfarniadau PhD cydweithredol.<br>• Creu strwythur a chanllawiau mewnol i staff ar gyfer cefnogi lleoliadau datblygu gyrfa tymor byr ar gyfer myfyrwyr PhD. | • Mwy o gyfleoedd i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru i wneud ymchwil ar lefel PhD.<br>• Gwell sgiliau i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa sydd eisiau gweithio yn y sector treftadaeth. |
| Ail-lansio'r rhaglen Cymrodyr Ymchwil Anrhydeddus ar gyfer cynulleidfa ehangach. | • Creu rhaglen dreigl o recriwtio ar gyfer Cymrodyr Ymchwil Anrhydeddus gyda swyddi'n cael eu hadolygu bob dwy flynedd.<br>• Targedu hysbyseb ar gyfer grwpiau sy'n dod o gefndiroedd ymchwil annhraddodiadol yn ogystal â thraddodiadol. | • Mwy o amrywiaeth o bobl yn cymryd rhan yn ein rhaglen ymchwil.<br>• Mae cymrodyr yn darparu ystod o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ategol i weithio ochr yn ochr â staff curadurol. |
| Ymgymryd â phrojectau ymchwil sy'n hyrwyddo cynnwys a datblygiad rhaglenni cyhoeddus. | • Mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd ymchwil yn seiliedig ar gynllunio hirdymor ar gyfer arddangosfeydd, digwyddiadau cyhoeddus a rhaglenni dysgu.<br>• Gweithio gyda'r tîm arddangosfeydd i ddatblygu sianel o ofynion ymchwil. | • Mae ein rhaglenni cyhoeddus yn cynnig dehongliadau cyfoethocach a hanesion newydd i'n hymwelwyr.<br>• Mae ein harddangosfeydd yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth newydd a ddatblygwyd gan ein hymchwilwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| Cryfhau ein diwylliant ymchwil a chynyddu nifer y staff sy'n ymchwilio. | • Datblygu ein rhaglen bresennol o seminarau a diwrnodau cwrdd i ffwrdd ymchwil i gynnwys mwy o gydweithwyr allanol.<br><br>• Mwy o aelodau o staff yn gwneud cais i eistedd ar baneli adolygu ar gyfer, er enghraifft, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) a Horizon Europe.<br><br>• Mwy o aelodau staff yn cymryd rhan fel adolygwyr a golygyddion ar gyfer cyhoeddiadau academaidd perthnasol y diwydiant.<br><br>• Rhoi ymatebion sefydliadol ac unigol yn gyson i gyllidwyr am ddyfodol, er enghraifft, cyllid yn y sector treftadaeth a hyfforddiant ôl-raddedig.<br><br>• Darparu mentora ar gyfer ymchwilwyr neu staff ar ddechrau eu gyrfa sydd eisiau symud i ymchwil am y tro cyntaf. | • Mae gan nifer cynyddol o staff yr hyder i gymryd rhan mewn projectau ymchwil a'u harwain.<br><br>• Mwy o geisiadau ar gyfer projectau ymchwil sydd wedi'u hariannu'n allanol. |
| Cynnal ein statws fel Sefydliad Ymchwil Annibynnol. | • Adolygu polisïau sy'n ymwneud â moeseg ac ymddygiad da wrth ymchwilio a llywodraethu ymchwil.<br><br>• Cadw cofnodion cywir o'r holl ymchwil a ariennir yn allanol ar draws y sefydliad. | • Parhau i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid gan Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI) a chynnal ymchwilwyr sydd wedi'u hariannu'n allanol. |

| | | |
|---|---|---|
| Codi proffil ein Llyfrgell fel elfen allweddol o'n gallu ymchwil. | • Cynnig hyfforddiant ac arweiniad ar feysydd o ledaenu ymchwil, megis cyhoeddi mynediad agored, rheoli data ymchwil, bibliometreg ac Altmetric.<br><br>• Cefnogi ein cymuned ymchwil drwy oruchwylio myfyrwyr PhD a lleoliadau.<br><br>• Cynnal ymchwil i hanes ein casgliadau gyda'r bwriad o daflu mwy o oleuni ar hanes Amgueddfa Cymru a sut y gall hynny lywio'r gwaith cyfredol o gasglu.<br><br>• Datblygu casgliadau yn adnoddau ymchwil cryfach drwy ddadansoddi cynnwys yn fanwl ac adnabod bylchau, yn enwedig o safbwynt dad-drefedigaethol o herio rhagfarn a diffyg cynrychiolaeth.<br><br>• Sicrhau hygyrchedd casgliadau, yn ddigidol ac yn ffisegol, gyda'r bwriad penodol o ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol a lleoli ein hunain yn fyd-eang. | • Mwy o ddefnydd o adnoddau llyfrgell i gefnogi projectau ymchwil mewnol.<br><br>• Mae gan staff ar draws y sefydliad y sgiliau a'r hyder i gyhoeddi a hyrwyddo eu hymchwil ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.<br><br>• Mae gwaith ar ddad-drefedigaethu mewn rhannau eraill o'r casgliadau yn cael ei wella gan adnoddau o'r llyfrgell.<br><br>• Mae projectau ymchwil ar gyfer unigolion a sefydliadau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn cael eu cefnogi gan ein casgliadau. |